# Y Pwyllgor Archwilio

## Cofnodion AC(2) 01-06

### Dyddiad y cyfarfod: 12 Ionawr 2006
### Amser y cyfarfod:1:30pm – 4:30pm
### Lleoliad: Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Irene James | Islwyn |
| Denise Idris-Jones | Conwy |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Catherine Thomas | Llanelli |
| **Swyddogion yn Bresennol** | |
| Jeremy Colman | Yr Archwilydd Cyffredinol |
| Steve Ashcroft | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Dave Thomas | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Gillian Body | Swyddfa Archwilio Cymru |
| James Verity | Swyddfa Archwilio Cymru |

| | |
|---|---|
| Paul Dimblebee | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Jeremy Morgan | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Ian Gibson | Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad |
| Sarah Rees | Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad |
| **Tystion** | |
| Ann Lloyd | Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llwyodraeth Cynulliad Cymru |
| Philip Chick | Cynghorydd Polisi Iechyd Meddwl, Llywodraeth Cynulliad Cymru |

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Kathryn Jenkins | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Jocelyn Davies, y mynychwyd y cyfarfod yn ei lle gan Rhodri Glyn Thomas.

**Eitem 2: Adolygiad Sylfaenol o'r Gwasanaethau a Ddarperir: Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion yng Nghymru**
**Papurau: AC(2) 01-06(p1)**

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ann Lloyd, Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Philip Chick, Cynghorydd Polisi Iechyd Meddwl Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Eitem 3: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio 'Rheoli Ynni a Dwr yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru'**
**Papurau: AC(2) 01-06(p2) ac AC(2) 01-06(p3)**

3.1 Nododd yr Archwilydd Cyffredinol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn y naw argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor Cyllido a'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru o ran rhoi'r argymhellion ar waith. Os oes angen, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw'r Pwyllgor at unrhyw feysydd lle y bydd angen cymryd camau pellach.

**Eitem 4: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio 'Rheoli Absenoldebau Salwch gan Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru'**
**Papurau: AC(2) 01-06(p4) ac AC(2) 01-06(p5)**

4.1 Nododd yr Archwilydd Cyffredinol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn y saith argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro'r cynnydd a wnaed gan y sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ac ELWa o ran rhoi'r argymhellion ar waith. Os oes angen, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw'r Pwyllgor at unrhyw feysydd lle y bydd angen cymryd camau pellach.

**Eitem 5: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio, 'Cwymp Antur Dwyryd Llyn Cyf'**
**Papurau: AC(2) 01-06(p6) ac AC(2) 01-06(p7)**

5.1 Nododd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod yn bosibl bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dehongli argymhellion y Pwyllgor yn rhy llythrennol. Dywedodd y byddai'n cyfarfod â'r Ysgrifennydd Parhaol i drafod yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor. Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i egluro safbwynt y Pwyllgor ac i ofyn am sicrwydd y bydd y Llywodraeth yn cymryd y camau priodol i sicrhau y bydd yn mynd i afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

**Cam gweithredu**

Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i egluro safbwynt y Pwyllgor ar yr argymhellion yn yr adroddiad 'Cwymp Antur Dwyryd Llyn Cyf' ac yn gofyn am sicrwydd y bydd y Llywodraeth yn cymryd camau priodol i sicrhau y bydd yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papurau: AC(2) 10-05(mins)**

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2005.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r cyfarfodydd ffurfiol a gynhelir yn y prynhawn yn dechrau am 1.30pm oni bai bod y trefniadau'n newid.